# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Wener, 31ain Ionawr 2014.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, Siôn Ifans, D.G.Jones, H.D.Jones, J.P.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, G.Wigley, H.M.Williams, Mrs Ann Williams, Mrs Gwenfair Davies a'r Cyng. G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau.** Mri:- A. O. Griffiths a T.J.Thomas.

**81. Cofnodion cyfarfod 19eg Rhagfyr 2013.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**82. Materion yn codi o'r cofnodion.**
Mis Gorffennaf
46.1 Diochwyd i Sion Ifans am drefnu i gael amcan bris. Derbyniwyd un am £500 i sefydlu gwefan oddi wrth Menter a Busnes. I fod yn ffurfiol rhaid derbyn mwy nag un cynnig a chytunwyd cysylltu efo clerc Cadfarch a hefyd Gwynant Jones, Nantyfyda.
Mis Hydref.
63.5 Darllenwyd ymateb Vodafone ac awgrym ar sut i geisio gwella'r sefyllfa yn Narowen. Cysylltu eto efo cwmnïau i geisio codi mast yn yr ardal.
Mis Tachwedd.
63.7 Gan nad oedd ateb yn dod o Bob Hudson y pennaeth ym Mronllys bu'r clerc yn siarad efo Jason Crowl o'r Drenewydd a'i awgrym ef oedd ein bod yn cysylltu efo Peter Skitt, y pennaeth cyffredinol dros y rhan yma o'r sir ac sydd hefyd yn gyfarwyddwr ar ysbyty Bronglais. Yn ôl Jason fe fyddai ei wybodaeth ef yn fwy na'r eiddo Mr Hudson. Mae Mr Skitt yn medru dod atom i gyfarfod o'r Cyngor ar y Gwener olaf ym mis Mawrth. Derbyniwyd y cynnig gan ofyn i rai cynghorau cyfagos i ymuno yn y cyfarfod.
70.2 Wedi derbyn y plac yn cofnodi'r *QR Code* ar gyfer y gofeb yng Nghemaes. Addawodd y cadeirydd ofalu am rywun i'w gosod mewn lle amlwg. Ni chafwyd pris gan y sawl oedd wedi paratoi'r plac.
71.2 Derbyniwyd cadarnhad o'r Cyngor Sir nad ydynt am roi cist ychwanegol yn Narowen gan fod newidiadau ar y gweill yn y dull o gasglu sbwriel yn yr ardal.
71.4 Bydd gwaith yn cael ei wneud ger Pont Ifans yn fuan.
71.5 Bydd y Cyngor Sir yn ystyried yr awgrym o ysgubo ffordd Cwm Ffrydlan o'r pen uchaf ar i lawr.
71.7 Mae cynrychiolydd o'r Cyngor Sir wedi gwneud archwiliad o'r ffordd yn dilyn y Rali ond wedi methu gweld llawer o'i le.
Mis Rhagfyr.
73.71.9 Ni dderbyniwyd amcan bris i wella'r llwybr at yr eglwys yn Narowen gan nad oedd manylion o'r hyn ddisgwylid yn ddigonol. Cytunwyd gwastadau a chael tarmac ar hyd y llwybr.
74. Atebiad oddi wrth George & Tomos yn egluro fod mynediad ar gael i gerbydau a cherddwyr i fynwent Tal-y-wern.
76 Derbyniwyd llythyron o ddiolch oddi wrth ddeg o'r un ar ddeg elusen a dderbyniodd arian oddi wrth y Cyngor ym mis Rhagfyr.
77. Roedd yr arian oedd wedi ei glustnodi ar gyfer costau'r mynwentydd eisoes wedi eu dosbarthi ac nad oedd dim yn weddill ar gyfer Glantwymyn. Diolchodd y clerc i'r Cynghorydd Fychan am ei ymdrech i geisio cael yr arian. Cyflwynir cais am ddwy flynedd y tro nesaf gan ddisgwyl am ymateb cadarnhaol.

**83. Cynllunio.**
**P2014/54.** Ymestyn a newid y tŷ ym Mlaen Cwmlline. Cytuno
**P2014/68.** Codi ystafell yng ngardd 4 Bro Dulas, Ffriddgate. Cytuno
**P2014/81.** Codi Melin Wynt ar dir ger Cefncoch Gwyllt, Glantwymyn. Cytuno

**84. Eitemau i'w talu.** Dim yn ystod y mis.

**85. Ceisiadau am arian.**
85.1 Cais o SARPA i adnewyddu'r tâl aelodaeth o £8 am flwyddyn arall. Cytunwyd i ail ymaelodi.

85.2 Eisteddfod Cwmlline. Trosglwyddwyd cais i Gronfa'r Melinau Gwynt.

**86. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
86.1 Gweithdy cyllideb yr adran Iechyd yn y Plas pnawn a nos Iau 13eg Ionawr. Bu Bill Owen yno a'r byrdwn oedd am fwy o doriadau ar y gweinyddwyr ac nid ar y gwasanaethau. Barn y cynrychiolwyr oedd nad oedd y cyfarfod wedi ei baratoi yn ddigon trylwyr.
86.2 Gwenfair Davies wedi bod mewn cyfarfod o Fforwm y Bwrdd Iechyd ym Machynlleth ac wedi derbyn llawer o wybodaeth drwy Mr Peter Skitt. Bydd ef yn llysgennad delfrydol i ddod i gyfarfod mis Mawrth. (*Eitem 82.63.7 uchod)*
86.3 Yn yr ad-drefnu arfaethedig mae yna awgrym o gyfuno'r Adran Iechyd efo'r Cyngor Sir, ond nid yw'r Cynghorydd Fychan yn gefnogol i'r syniad heb mwy o fanylion.
86.4 Mae'r Cyngor Sir yn wynebu toriadau mawr a fydd yn bellgyrhaeddol. Mewn rhai adrannau o'r Cyngor nid oes rheolwyr bellach y gall y gweithwyr droi atynt am gyfarwyddyd.
86.5 Mae pwyllgor y Ganolfan yn gweithio'n galed i godi arian i'w chynnal. Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus yn ddiweddar a gyrfaoedd chwist yn rheolaidd er budd y Ganolfan.

**87. Gohebiaeth.**
87.1 Cais i'r cadeirydd fynd i Balas Buckingham. Un Llais Cymru sydd i benderfynu.
87.2 Ffurflen i'w llenwi i gofnodi'r swm a drosglwyddwyd i'r Ganolfan.
87.3 Bu myfyriwr ar y ffôn cyn anfon holiadur ynglŷn â'r melinau gwynt. Roedd yn paratoi traethawd ar gyfer ei ddoethuriaeth ar effaith y melinau mewn cymuned.
87.4 Cylchlythyr rhif 24 o'r Llais sef cylchgrawn Un Llais Cymru.
87.5 Gwahoddiad i fore goffi yn swyddfa Russell George i ddathlu'r ffaith fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r sir yn 2015.
87.6 Gyda'r gwahoddiad roedd Mr George yn amgáu dau lythyr o'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Mrs Edwina Hart yn amlinellu materion o ddiddordeb i rai o'r cynghorwyr. Llythyr i Lywodraethwyr Ysgol Glantwymyn gyda chopi o un llythyr yn cynnig grant i wella diogelwch plant ysgol.
87.7 Cynhaliwyd pwyllgor ardal Maldwyn yn Abermiwl ar 21ain Ionawr.
87.8 Un Llais Cymru mewn cydweithrediad efo ITV Cymru yn wneud arolwg ar y sefyllfa ynglŷn â mynwentydd. Ffurflen i'r clerc ei chwblhau.
87.9 Llythyr i gadarnhau fod y Cyfarwyddwr Strategol o'r Cyngor Sir wedi caniatáu i ddargyfeirio llwybr cyhoeddus heibio Tyn Twll, Abercegir.
87.10 Holiadur pwysig o'r Cyngor Sir am wybodaeth. Bydd ymgynghoriad yn cychwyn cyn bo hir i wella a chydlynu gwasanaethau cyhoeddus ar draws Powys. Derbyniwyd y ddogfen ar ol y cyfarfod diwethaf ac roedd angen ei hanfon yn ol erbyn 24ain Ionawr. Ar ran y cynghorwyr roedd y clerc wedi ateb ond yn cwyno nad oedd y ffurflen yn rhoi digon o gyfle i fynegi barn.
87.11 Rhannwyd dogfen i bob aelod oddi wrth Biosffer Dyfi. Hoffai Andy Rowland ymateb i'r cynnwys erbyn 12fed Chwefror.

**88. Unrhyw fater arall.**
88.1 Mae coed yn gordyfu wrth y bont yng Nghwmlline ac yn tarfu ar weledедd gyrwyr.
88.2 Atgoffa eto am y perygl ger Tynrhos, Cwmlline.
88.3 Dwr ar y ffordd ger chwarel Llwyngwern.
88.4 Mae taith gerdded yn cael ei threfnu o Fachynlleth i Geinws i gofio am April Jones a gafodd ei llofruddio mewn tŷ yng Ngheinws un mis ar bymtheg yn ol.
88.5 Beth yw'r dyfodol i Bont ar Ddyfi?

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28ain Chwefror 2014.**